

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW

7:30YH 25<sup>AIN</sup> MAI 2022

### YN NGHANOLFAN BRO CERNYW

Cyn dechrau'r cyfarfod REW yn cynnig fod EW yn cadeirio, MD yn eilio.

#### **1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd bawb gan Einir Williams (EW). Croesawodd aelodau'r cyhoedd oedd wedi mynychu'r cyfarfod ac eglurodd reolau statudol y Cyngor Cymuned. Eglurodd EW taw dim ond y 6 aelod o'r cyhoedd oedd wedi gofyn i siarad am 3 munud yr un fydd yn cael siarad ac nid sesiwn cwestiwn ac ateb yw bwriad y cyfarfod. Gofynnodd i bawb barchu'r rheolau a hefyd naill a'r llall.

**1.2** Presennol: Diane Roberts (DR), Ann Vaughan (AV), R. Emlyn Williams (REW), Mark Davies (MD), Gwydion Jones (GJ) & Myrddin Davies (MGD)

**1.3** Ymddiheuriadau: Clwyd Roberts (CR) & Austin Roberts (AR)

Croesawyd cyfieithydd i'r cyfarfod – Dwysan Williams.

Ifor Lloyd, Cyngorydd Sir Llanfair Talhaearn hefyd yn bresennol.

#### **2 DATGANIAD DIDDORDEB**

AV 3.

#### **3 CYNRYCHIOLAETH O BUTE ENERGY**

Gadawodd AV y cyfarfod.

Croesawodd EW gynrychiolwyr aelodau o gwmni Bute Energy - Gemma Hamilton, Naomi Williams a Dafydd Williams, y cyfarfod.

Diolchodd Gemma Hamilton am gael mynychu'r cyfarfod. Trafododd Gemma Hamilton fwriad datblygu a'r prosesau sydd ynghlwm â ffermydd gwynt. Eglurodd fod astudiaeth dichonoldeb ar waith ar hyn o bryd a'r cam nesaf fydd asesiad effaith amgylcheddol. Adroddodd y bydd gwefan yn cael ei chyhoeddi ac y byddai'r dogfennau i gyd ar gael i'w gweld a sesiynau cyhoeddus yn cael eu cynnal. Trafododd y bydd arolygon ac astudiaethau pellach yn cael eu gwneud cyn i gais ffurfiol gael ei gyflwyno.

Cydnabyddodd Gemma Hamilton fod sawl gohebiaeth wedi dod i law gan aelodau o'r cyhoedd yn gofyn am fanylion manwl o'r cynllun ond eglurodd nad yw'r wybodaeth gadarn ar gael eto. Eglurodd fod Bute Energy yn casglu cyn gymaint o ddata a phosibl ar hyn o bryd ac y byddant yn buddsoddi mewn prosiectau mewn cymdeithasau eraill fel rhan o'r prosiectau ehangach maent ynghlwm â hwy. Trafododd fod prosiect yn Ne Cymru i'w weld ar wefan Bute Energy ar hyn o bryd.

Gwahoddodd EW y 6 aelod o'r cyhoedd (Non Davies, Julia Parry, Clive Goodridge, Karen Barham, Kim Southerland & Seth Jones) oedd wedi gofyn o flaen llaw i gael siarad.

Gofynnodd Seth Jones cyn siarad os oedd yn cael gofyn cwestiynau i gynrychiolwyr Bute Energy. EW yn ail adrodd nad sesiwn cwestiwn ac ateb oedd pwrpas y cyfarfod a dweud fod croeso i bawb yrru cwestiynau ar ebost a buasai rhain yn cael eu gyrru ymlaen i Bute Energy i'w hateb.

EW yn gofyn os oedd gan y cynghorwyr gwestiynau i'r cynyrchiolwyr.  
DR yn gofyn sut oedd Bute Energy wedi rhoi'r argraff i Darren Millar fod ymgynghoriad wedi digwydd drwy Un Llais yng Ngorffennaf 2021. Gemma Hamilton yn adrodd fod Bute Energy wedi bod mewn cyswllt efo Darren Millar.

MD yn gofyn sut oedd Bute Energy wedi dod o hyd i'r safle.

Gemma Hamilton yn cadarnhau nad yw'r Llywodraeth yn talu cwmnïau preifat. Cyntaf i'r felin o ran y datblygwyr.

EW yn codi mater oedd wedi ei godi efo hi fod gan aelodau bwrdd Bute Energy gysylltiad agos efo Llywodraeth Cymru.

MD yn gofyn os oedd unrhyw ddatblygiad wedi gorffen gan Bute Energy eto, eglurodd Gemma Hamilton fod y cwmni wedi ei sefydlu yn 2018 a nad oedd safle wedi gorffen eto.

Diolchodd MGD i'r cynyrchiolwyr am esbonio'r broses ymgynghori a holi am werth cymdeithasol y datblygiad. Eglurodd Gemma Hamilton fod angen deall effaith unrhyw dyrbeini ar yr amgylchedd o gwmpas a buasai ymgynghoriad yn digwydd. Baich ar y datblygwr i ddod â cynllun sydd wedi ei asesu'n llawn.

DR yn gofyn pam fod angen i'r turbeini fod mor fawr. Gemma Hamilton yn dweud nad oeddynt am fod yn 250 ac efallai fod y wybodaeth wedi ei weld yn Future Wales. Adroddodd fod turbeini mwy yn cynhyrchu mwy o egni. Wrth asesu, byddai rhaid edrych ar beth sydd yn addas yn yr ardal. Dywedodd na fydd y turbeini yn 250m.

Non Davies yn dweud cyn gadael y cyfarfod fod Stuart George o Bute Energy wedi dweud wrthi fod y turbeini am fod yn 250m.

DR yn nodi ei bod yn teimlo fod rhoi y turbeini fyny yn anheg. Adroddodd nad oes posibil gwario arian y turbeini o Moelogan.

Gemma Hamilton yn adrodd fuasai posibl sefydlu grŵp cyswllt cymdeithasol a byddai posibl cael cylchlythyrau.

EW yn ail adrodd fod y Cyngor Cymuned yn hapus i dderbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd a'u gyrru ymlaen i Bute Energy i gael atebion.

Diolchodd EW i gynyrchiolwyr Bute Energy ac aelodau'r cyhoedd am ymuno â'r cyfarfod heno.

Gadawodd cynyrchiolwyr Bute Energy a rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd oedd wedi mynychu'r cyfarfod.

AV yn ail-ymuno â'r cyfarfod.

#### **4 COFNODION I'W GWIRO 18<sup>FED</sup> MAI 2022**

DR yn adrodd fod angen i'r dyletswyddau llawn gael eu cynnwys, EW yn cynnig eu bod yn cael eu hatodi i'r cofnodion.

Cynnigwyd yn gywir gan REW ac eilwyd gan MD.

#### **5 MATERION YN CODI**

DR yn nodi nad yw gor-yrru ar yr agenda. EW yn atgoffa fod AR wedi gaddo siarad efo adran priffyrdd Conwy ac wedi cael ateb heddiw yn adrodd taw cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned fyddai'n cost yr arwyddion ac y byddant yn costio oddeutu £3,000 yr un, tua £800 i'w gosod a tua £1,000 am gyflenwi trydan iddynt. Cyngor gan y Cyngor Sir ar gael, y Sir yn talu am y cynnal a chadw. EW yn teimlo'n gryf fod angen bwrw ymlaen efo rhain oherwydd fod cymaint o gwynion yn cael eu derbyn. MD yn ategu fod hwn ddim yn bris mawr pe tasai rhain yn arbed bywyd. Gofynnodd AV os oedd sylwad am arwyddion solar, EW yn adrodd

nad oedd sylwad wedi dod yn ôl am hyn. I'w roi ar agenda nesaf. Pawb yn gefnogol iawn i fynd ymlaen efo rhain.

EW yn cydnabod fod angen cyf-ethol aelodau newydd fel cynghorwyr, am adrodd yn ôl yn ystod y cyfarfod nesaf yn dilyn trafodaeth efo'r Cyngor Sir.

DR heb dderbyn ateb gan y Cyngor Sir i baentio 20mya ar y ffordd na chwaith am yr ohebiaeth roedd wedi yrru ynglyn â ffordd Waterloo. Am ebostio eto a chopio AR yn yr ohebiaeth.

EW yn adrodd fod popeth oedd AR wedi addo wneud yn ystod y cyfarfod diwethaf wedi ei wneud. AV wedi bod yn plannu blodau heddiw ac yn ategu fod y palmant ger Fedwen Arian wedi ei orchuddio. MD hefyd yn dweud fod y materion angen sylw.

REW yn codi fod y car oedd wedi ei adael ger Plas Matw dal yno dydd Sul. REW heb glywed yn ôl yn dilyn hysbysu'r awdurdodau.

DR yn nodi fod y tap dal ddim yn gweithio yn y fynwent, DR am ddilyn hyn i fyny efo Dŵr Cymru.

## **6 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD**

**6.1** Dim wedi dod i law. Adroddodd EW fod y materion wedi eu trafod yn ystod y cyfarfod diwethaf.

## **7 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**7.1** 0/49641: DR yn adrodd fod parcio ar ochr y ffordd wedi bod yn broblem. Pwrpas y cais yw gwneud y safle'n saffach. Nododd MD nad y tiffeddianwr sydd yn gwneud y cais. Trafodaeth am y mater, hyn yn fater i'r adran gynllunio. Dim gwrthwynebiad.

## **8 MATERION CYNGOR**

**8.1** Cyf-ethol – EW heb gael cyfle ers y cyfarfod wythnos diwethaf i wneud ymholiadau pellach ynglyn â hyn. Croesawodd MGD yn gynnes i'r cyfarfod ac ymddiheuro nad oedd wedi gwneud yn gynharach, ond nad oedd y cyfarfod yn un arferol. Gofynnodd os oedd MGD yn hapus i gymeryd y swydd o ofalu am y llyfr sic, cardarnhaodd ei fod yn hapus i ymgymryd â'r gwaith.

**8.2** Yswiriant – DR wedi derbyn ffurflen ar gyfer cael pris fyddai angen eu cwblhau. Angen prisio asedau. AV yn gofyn os oedd prisiau ar yr eitemau yn yr yswiriant cyfredol, adroddodd EW nad ydi wedi gweld rhestr asedau na phrisiau ar y dogfennau. Atgoffodd EW fod eitemau wedi eu hychwanegu tua dwy flynedd yn ôl. Betws yn Rhos wedi defnyddio dogfennau asesiad risg gan y Cyngor Sir er mwyn y pwrpas yma. EW am ofyn wrth y Cyngor Sir am gopi o'r ddogfen er mwyn cwblhau'r ffurflen. EW am edrych drwy'r ffurflen ac adrodd yn ôl erbyn y cyfarfod nesaf. Nododd REW fod angen adnewyddu'r polisi cyfredol cyn y cyfarfod nesaf, atgoffodd DR fod y cwmni yswiriant yn hwyr yn gyrru'r dogfennau adnewyddu. Gofynnodd MD faint yn fwy oedd y premiwm efo'r cwmni cyfredol ers y flwyddyn diwethaf, nododd EW fod y gost wedi codi tua £40. Cynnigiodd MD adnewyddu efo'r cwmni cyfredol gan fod dim llawer o amser bellach i gael pris gan gwmni arall. REW yn eilio. EW am ofyn am y *corporate risk policy* beth bynag rhagofn y buasai hyn yn galluogi gostyngiad yn y pris am eleni.

## **9 MATERION ARIANNOL**

**9.1** Dim wedi dod i law.

## **10 GOHEBIAETH**

**10.1** Amcan bris gan Dei Evans am godi'r glaswellt yn y mynwentydd yn dilyn torri, byddai'r gost yn dwblu. Nodwyd yn y pris fyddai amser yn brin iddo gasglu'r glaswellt eleni. Eitem i'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf i drafod os taw torri'n amlach neu godi'r glaswellt fuasai'r opsiwn gorau. Trafodaeth am y tymor tyfu a fod hyn yn amrywio o fis i fis.

**10.2** Cododd EW ebost y cyngor a fod un aelod o'r cyhoedd yn gyrru llawer o ebyst, a fod lefel yr ebyst oedd yn cael eu derbyn dydd Sul diwethaf wedi achosi EW gysidro ymddiswyddo oherwydd. Gohebiaeth yn pwyntio allan camgymeriadau oedd wedi digwydd yn ystod y cyfarfod diwethaf. EW yn ymddiheuro ei bod heb gadeirio'r cyfarfod yma ers tro ond ei bod yn trio ei gorau. EW yn cadarnhau fod angen iddi gymeryd cam yn ôl o ddyletswyddau'r Cyngor Cymuned oherwydd ei bod yn helpu i drefnu Sioe Gwytherin. Adroddodd EW na fydd ebyst yn cael eu hateb i'r raddau mae wedi bod yn delio a hwy yn ddiweddar yn mynd ymlaen.

REW yn adrodd fod angen bwrw ymlaen i ddod o hyd i glerc a nodi fod angen i bobl gymeryd i ystyriaeth fod y pandemic wedi effeithio gwaith y Cyngor Cymuned.

Angen llunio hysbyseb swydd a llunio pecyn deniadol. Gofynnodd MGD os oedd templed ar gael i helpu. Adroddodd DR fod arweiniad i gael gan Un Llais a fod hysbyseb wedi bod yn y Gadlas yn ddiweddar ar gyfer Cyngor Betws yn Rhos. EW, GJ & MGD yn cynnig bwrw ymlaen efo hwn, pawb yn gytun.

## **11 BILIAU**

**11.1** Dei Evans am dorri glaswellt £450, pawb yn gytun i dalu.

## **12 MATERION LLEOL**

**DR** yn codi'r mater o ddŵr y fynwent ond fel uchod am gysylltu efo Dŵr Cymru.

**MGD** nodi fod ffordd i fyny heibio'r Graig yn cael ei chau er mwyn gwaith arwybenu yfory.

**AV** wedi bod yn y fynwent ddoe a wedi siarad efo Gwenda Cooper oedd yn adrodd fod canghenau yn beryglus yn taro pobl wrth iddynt gerdded odanynt, yn enwedig pan fydd pwysau glaw arnynt. Angen torri'r canghenau cyn gynted a phosibl. EW yn cynnig torri'r gangen yn syth oherwydd diogelwch y cyhoedd, pawb yn cefnogi. AV, REW & MD wedi gwneud trefniadau ar gyfer y pwyllgor mynwentydd.

## **13 CYFARFOD NESAF**

29<sup>ain</sup> Mehefin 2022 yn Gwytherin

Cyfarfod yn dod i ben 9:20pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan